# CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU
# ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

DRAFT

Ymgynghoriad ar y cynnig i Greu Canolfan Adnoddau Arbenigol Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gwaun y Nant o fis Medi 2024.



*Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille. Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen. Cysylltwch â ni ar 01446 709828 er mwyn trefnu hyn.*

## CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod holl ddisgyblion y Fro yn cael pob cyfle i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a bod ganddynt yr amgylcheddau dysgu gorau posibl. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ymgynghoriadau yn ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y cymunedau dan sylw, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod y cynigion yn glir, yn dryloyw ac yn adlewyrchu safbwyntiau'r rhai yr effeithir arnynt. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach y gallwn wireddu'r weledigaeth hon.

Diben y cynnig hwn creu Canolfan Adnoddau Arbenigol Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gwaun y Nant o fis Medi 2024.

Caiff y cynnig hwn ei ystyried o dan adran 2.3 Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae Adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cyfeirio at newidiadau a reoleiddir ysgol, sy'n cynnwys trosglwyddo unrhyw ysgol i safle newydd.

## Y CYD-DESTUN CENEDLAETHOL

Mae'r canllawiau statudol allweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i drefniadaeth ysgolion yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth ystyried cynigion, rhaid i'r Cyngor ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer rhaglenni cymunedau'n gyntaf neu raglenni olynol.

## CYD-DESTUN POLISI LLEOL

Gan adleisio polisi cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o Gynllun Corfforaethol 2020-25 i gyflawni gweledigaeth o – '**Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer dyfodol disglair'**.

Mae Bro Morgannwg wedi ymrwymo i gyflawni'r amcan 'cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy' gan godi safonau cyflawniad cyffredinol trwy foderneiddio addysg yn y Fro er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg o'r radd flaenaf.

Er mwyn cyflawni hyn, rydyn ni o'r farn bod angen i ysgolion allu darparu'r profiad dysgu gorau posibl er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau sydd ar gael iddynt a'u bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

DRAFT

## HERIAU PRESENNOL

Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nifer o heriau a byddai'n:

- Rhoi cymorth targedig i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sydd â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu reoleiddio sylweddol mewn amgylchedd ysgol gynradd brif ffrwd.
- Cynnig amgylchedd dysgu gwell a fyddai'n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu potensial yn llawn.
- Rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol ledled ein Ysgolion Cynradd.
- Sicrhau y gall anghenion disgyblion sydd â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu reoleiddio sylweddol gael eu diwallu o fewn yr awdurdod lleol a gellir eu cefnogi i aros yn eu hysgol brif ffrwd.

## PROFFIL CYMUNEDOL

Ar hyn o bryd mae 7 ysgol cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu Bro Morgannwg:

| **Enw'r ysgol** | **Math** | **Iaith** | **Ystod oedran** | **Capasiti*** | **Pellter o Ysgol Gwaun Y Nant (milltiroedd)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg Dewi Sant | Cymuned | CC | 3-11 | 210 | 11 milltir |
| Ysgol Gwaun y Nant | Cymuned | CC | 3-11 | 270 | 0 |
| Ysgol Iolo Morgannwg | Cymuned | CC | 3-11 | 210 | 12 milltir |
| Ysgol Gymraeg Pen y Garth | Cymuned | CC | 3-11 | 420 | 5.4 milltir |
| Ysgol Sant Baruc | Cymuned | CC | 3-11 | 420 | 2.3 milltir |
| Ysgol Sant Curig | Cymuned | CC | 3-11 | 420 | 1.8 milltir |
| Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | Cymuned | CC | 3-18 | 210 (CA1 a 2) | 2.1 milltir |

Mae Ysgol Gwaun Y Nant wedi'i lleoli yn ward Gibbonsdown 2.

Mae gan y ward boblogaeth o 5,488 yn seiliedig ar gyfrifiad 2021.

Mae'r data isod ar gyfer ward Gibbonsdown 2 yn dod o [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)](https://).

| **Ardal Etholaeth Bro Morgannwg** | **Cod AGEHI** | **Safle yng Nghymru yn Gyffredinol (o 1909)** | | **Safle Cyflogaeth (o 1909)** | | **Safle Mynediad i Wasanaethau (o 1909)** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Safle** | **% (Â'r Amddifadedd Lleiaf / Mwyaf)** | **Safle** | **% (ALl / AM)** | **Safle** | **% (ALl / AM)** |
| Gibbonsdown 2 | **Safle o 1909 (Addysg)** | **105** | Y 10% â'r amddifadedd mwyaf | **127** | Y 10% â'r amddifadedd mwyaf | 1070 | Y 50% â'r amddifadedd lleiaf |

Fel mae'r tabl uchod yn dangos, mae'r ward sy'n cynnwys Ysgol Gwaun Y Nant yn gymysg o ran lefelau amddifadedd. Mae'r AGEHI y mae'r ysgol wedi'i lleoli ynddi yn un o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ar draws 2 o'r 3 mesur, fodd bynnag, mae o fewn y 50% â'r amddifadedd lleiaf o ran mynediad at wasanaethau oherwydd ei lleoliad maestrefol.

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Byddai'r cynnig yn creu darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg arbenigol ar gyfer disgyblion 4-11 oed. Diben y ganolfan arbenigol hon fyddai cefnogi dysgwyr unigol yn ogystal â chynyddu capasiti'r ysgol gartref i greu amgylchedd cwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael mynediad at addysg sy'n diwallu ei anghenion.
Byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn cynnig cyfnodau o ddarpariaeth integredig i ddisgyblion sydd â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistig a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu reoleiddio sylweddol. Bydd hyn yn cynnwys disgyblion y mae eu lefel uchel o orbryder yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i gael mynediad at addysg prif ffrwd.

## ASESIAD O EFFAITH

Mae'r rhan hon o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Mae'r wybodaeth a ddadansoddwyd yn y broses hon yn cynrychioli cipolwg o'r sefyllfa bresennol. Mae'r asesiad o effaith yn ddogfen sy'n esblygu, a bydd yn parhau i gael ei datblygu drwy gydol y broses statudol. Caiff adborth a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori ei ddefnyddio i lywio'r Asesiad Effaith Cymunedol, a gaiff ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o'r Adroddiad ar yr Ymgynghoriad.

DRAFT

Cafodd wyth mesur allweddol eu nodi:

| Cyf. | Mesur |
|---|---|
| CI1 | Plant sy’n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol |
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgareddau a gynhelir ar safle’r ysgol |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol |
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol |
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol |
| CI8 | Trefniadau trafnidiaeth |

Aseswyd yr wyth mesur i nodi unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol a'r gymuned ehangach, a rhoddwyd sgôr sy’n amrywio o -3 i +3 ar sail y cydbwysedd o dystiolaeth oedd ar gael.

| Sgôr Mesur | Asesiad Mesur |
|---|---|
| -3 | Dirywiad mawr |
| -2 | Dirywiad cymedrol |
| -1 | Dirywiad bach |
| 0 | Dim newid yn gyffredinol |
| 1 | Gwelliant Bach |
| 2 | Gwelliant Cymedrol |

DRAFT

| | |
|---|---|
| 3 | Gwelliant Mawr |

DRAFT

## EFFEITHIAU AR Y GYMUNED LEOL

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Cynnig |
|---|---|---|---|
| CI1 | Plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol | 1 | Byddai creu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn defnyddio gofod nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn Ysgol Gwaun Y Nant. Ni fyddai hyn felly'n cael effaith andwyol ar dderbyniadau i Ysgol Gwaun Y Nant gan fod amcanestyniadau cyfredol yn nodi bod y ddarpariaeth brif ffrwd bresennol yn yr ysgol yn fwy na digon i ateb y galw o fewn ei dalgylch.<br><br>Mae gosod y ganolfan adnoddau arbenigol mewn ysgol gynradd brif ffrwd yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgyblion sydd â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu reoleiddio sylweddol wrth sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i addysg gynradd prif ffrwd. Bydd hyn yn cynnwys disgyblion y mae eu lefel uchel o orbryder yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i gael mynediad at addysg prif ffrwd.<br>.<br><br>Bydd creu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg. Fodd bynnag, ni ddarperir darpariaeth ADY yn seiliedig ar agosrwydd at Ganolfan Adoddau Arbenigol, gyda disgyblion yn mynychu o bob rhan o'r Awdurdod. |
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys | 1 | Cynigir y byddai unrhyw wasanaethau cymunedol sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan Ysgol Gwaun Y Nant yn parhau ac na fyddai unrhyw ddarpariaeth yn cael ei cholli. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gweithgareddau allgyrsiol. | | |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol | 0 | Ni fyddai unrhyw golled i Ysgol Gwaun Y Nant o ran mynediad i gyfleusterau cymunedol o ganlyniad i'r cynnig hwn. |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgareddau a gynhelir ar safle'r ysgol | 0 | Ni fydd y cynnig yn newid y cyfleusterau cymunedol presennol a ddarperir gan yr ysgol. |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol | 0 | Ni fyddai unrhyw effaith ar fusnesau lleol o ganlyniad i'r cynnig hwn. |
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol | 1 | Mae creu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol wedi creu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer tair swydd. |
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol | 0 | Ni fyddai'r cynnig yn arwain at gynnydd yn y capasiti yn Ysgol Gwaun Y Nant a fyddai'n achosi mwy o bwysau ar seilwaith lleol. Yn hytrach, bydd y cynnig yn addasu i ystafelloedd dosbarth gwag presennol o fewn adeilad yr ysgol.<br><br>Mae Ysgol Gwaun Y Nant yn cefnogi teithio i'r ysgol drwy ddulliau teithio llesol fel cerdded a beicio lle bo hynny'n bosib. Byddai hyn yn ymestyn i ddisgyblion a staff ADY lle bo hynny'n briodol. Byddai hyn yn helpu i leddfu'r pwysau ar seilwaith lleol. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| CI8 | Trefniadau trafnidiaeth | 0 | Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth ysgol am ddim i blant o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded yr ysgol briodol agosaf. Yn unol â 'Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008'.<br><br>Darperir trafnidiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion oed ysgol gynradd brif ffrwd os ydynt yn byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf.<br><br>Fodd bynnag, bydd disgyblion ADY sydd â gofynion teithio penodol na ellir eu diwallu ag addasiad rhesymol ar drafnidiaeth prif ffrwd yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim os asesir bod ganddynt anawsterau difrifol a/neu gymhleth a'u bod yn mynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn unol â chyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth neu ddosbarth mewn ysgol brif ffrwd sydd 2 filltir neu fwy (disgyblion oedran cynradd) o gyfeiriad cartref y rhieni yn ôl mesur y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. |

DRAFT

## CRYNODEB SGORIO

| Cyf. | Cymuned Leol |
|---|---|
| CI1 | 1 |
| CI2 | 1 |
| CI3 | 0 |
| CI4 | 0 |
| CI5 | 0 |
| CI6 | 1 |
| CI7 | 0 |
| CI8 | 0 |
| Sgôr Gyfartalog | 0 |

DRAFT

## CASGLIADAU

Mae’r asesiad effaith yn nodi y byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 5 o’r 8 mesur a aseswyd ac effaith bositif ar 3 o’r 8 mesur.  Yn gyffredinol, byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai’r cynnig yn rhoi cymorth targedig i ddisgyblion sydd â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu reoleiddio sylweddol mewn amgylchedd ysgol gynradd brif ffrwd addas er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cyflawni eu llawn botensial.  Yn ogystal, byddai gan ddisgyblion a staff amgylchedd dysgu gwell a fyddai’n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.

Daeth i'r casgliad o'r Asesiad Effaith ar y Gymuned y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.